# SL(5)450 - Rheoliadau Safonau Trapio heb Greulondeb (Cymru a Lloegr) 2019

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Safonau Trapio heb Greulondeb (Cymru a Lloegr) 2019 yn gwneud cywiriad technegol i sicrhau bod gwelliannau cynharach i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ("Deddf 1981") a wnaed gan Safonau Trapio heb Greulondeb 2019 (OS 2019/22) ("Y Rheoliadau") yn cael eu gweithredu'n briodol.

Roedd y gwelliannau yn y Rheoliadau yn disodli adran 11(2) o Ddeddf 1981 ac yn gwahardd lladd a chymryd carlymod oni bai bod hynny o dan awdurdod trwydded. Mae adran 16(3) o Ddeddf 1981 yn cynnwys y sail drwyddedu gymwys, ac o dan adran 16(3)(c) mae'n bosibl rhoi trwydded at ddibenion gwarchod anifeiliaid gwyllt. Yn y ddarpariaeth hon, fodd bynnag, nid yw "wild animals" yn cynnwys adar gwyllt.

Prif bwrpas lladd a chymryd carlymod yng Nghymru a Lloegr yw er mwyn gwarchod adar sy'n nythu ar y ddaear. Mae'r offeryn hwn yn mewnosod darpariaeth newydd yn adran 16 o Ddeddf 1981, sy'n darparu bod y sail drwyddedu yn adran 16(3)(c) yn cael ei darllen, i'r graddau y mae'n ymwneud â lladd a chymryd carlymod a waherddir o dan adran11(2), fel ei fod yn cynnwys gwarchod adar gwyllt.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw'r offeryn wedi'i wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg**

- Mae'r Rheoliadau hyn wedi cael eu gwneud fel offeryn cyfansawdd, sy'n golygu bod y Rheoliadau: (a) wedi cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, a (b) wedi cael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU. O ganlyniad, gwnaed y Rheoliadau yn Saesneg yn unig.
- Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi: "As the Regulations will be subject to UK Parliamentary scrutiny, it is not considered reasonably practicable for this instrument to be made or laid bilingually". Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y Rheoliadau wedi'u gwneud ar sail gyfansawdd i gynnal eglurder, parhad, hygyrchedd a thryloywder y llyfr statud ar gyfer y rhai y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â'u darpariaethau. Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn derbyn bod rhesymau da dros wneud y Gorchymyn hwn ar sail gyfansawdd, ond nodwn yr effaith a gaiff hynny (h.y. nid oes fersiwn Gymraeg).

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.**

   - Gwneir y Gorchymyn hwn o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (Deddf 1972). Mae Deddf 1972 yn rhoi disgresiwn ynghylch pa un ai'r weithdrefn negyddol ynteu'r weithdrefn gadarnhaol a ddylai fod yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn. Dewiswyd y weithdrefn negyddol ar y sail nad oedd unrhyw ffactorau yn nodi'r defnydd o weithdrefn gadarnhaol ar gyfer yr offeryn hwn, gan ystyried natur dechnegol a mân y diwygiad, a'r ffaith nad yw'n cynnwys newid polisi.
   - Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn derbyn bod dewis y weithdrefn negyddol yn briodol o ystyried y rhesymau hyn.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu rhwymedigaethau'r UE mewn perthynas â thrapio carlymod heb greulondeb o dan drwydded at ddibenion gwarchod adar gwyllt sy'n nythu, ac felly bydd y Rheoliadau'n rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl y diwrnod ymadael.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y Llywodraeth.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 14 Hydref 2019 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod a nodwyd a hefyd i dynnu sylw at faterion sy'n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.